



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18 Gorffennaf 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ddydd Mercher, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru lacio sylweddol ar y cyfyngiadau COVID. Bydd rhai newidiadau yn dod i rym y penwythnos yma, a'r gweddill os fydd y sefyllfa'n weddol ddechrau mis Awst. Ond wrth gyhoeddi'r llacio, pwysleisiwyd nad oedd hynny'n golygu fod y perygl wedi diflannu'n llwyr, a bod angen parhau i fod yn wyladwrus ac yn gyfrifol. Felly'r hyn sy'n digwydd yw newid o weithredu ar sail gyfreithiol i bwyslais ar gyfrifoldeb personol a gofal yr unigolyn dros eraill. I Gristnogion, dylai hyn fod yn dir cyfarwydd! Yn 1 Corinthiaid 10:23-24 dywed Paul: "Y mae popeth yn gyfreithlon," meddwch; ond nid yw popeth er lles. "Y mae popeth yn gyfreithlon," meddwch; ond nid yw popeth yn adeiladu. Peidied neb â cheisio'i les ei hun, ond lles ei gymydog.'

Mae Paul yn ymbil ar Gristnogion i beidio cam-ddefnyddio'u rhyddid ar draul lles pobl eraill. Yn hytrach, dylem fod yn ystyrion o sefyllfa ac anghenion eraill o'n cwmpas. Nid yw hyn wastad yn hawdd oherwydd ein tuedd naturiol yw gwneud yr hyn sydd wrth ein bodd ni, heb ystyried yr effaith ehangach. Ond eto, mewn cymaint o sefyllfaoedd arferol, rydym yn ddigon parod i gydnabod bod yna wahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gyfreithlon a'r hyn sy'n ddoeth. Efallai ei bod yn gyfreithlon i deithio hyd at 70 m.y.a. ar draffyrdd, ond os nad ydych yn gallu gweld yn glir oherwydd y tywydd, fyddai hynny ddim y peth doethaf na'r diogelaf i chi na theithwyr eraill.

Yn y pen draw, mae'r anogaeth i ni geisio lles ein cymydog yn deillio o gariad – cariad anfeidrol Duw sydd wedi cael ei arddangos fwyaf clir yn Iesu Grist: 'Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.' (Philippiaid 2:6-8)

Er bod Mab Duw yn haeddu pob clod ac anrhydedd, roedd yn fodlon darostwng Ei hun er lles eraill. Dangosodd yr Un dibechod fawredd Ei gariad wrth wynebu mellith Duw ar y Groes, er mwyn sicrhau maddeuant i'r euog.

Wrth i ni wynebu cyfnod newydd o ystyried beth i'w wneud a sut i ymateb, diolchwn fod Iesu eto heddiw'n ein galw i brofi Ei ras a'i faddeuant. Ac wrth i ni dyfu i'w adnabod yn well, gallwn bwysu ar Ei ddoethineb ac arweiniad Ei Ysbryd er mwyn i ninnau fedru dilyn esiampl Paul, fel y mae yntau'n dilyn esiampl Crist. (1 Corinthiaid 11:1)

Rhodri

## Oedfaon Dydd Sul, Medi 5<sup>ed</sup> (Mwy o fanylion y tro nesaf.)

- Oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 ac yn Groes am 11.00 o dan arweiniad Rhodri.
- Oedfa yn Llanfair am 9.30 ac yn Llansannan am 11.00 o dan arweiniad Celfyn Williams.
- Oedfa yn Saron am 10.00 o dan arweiniad y Parch. Goronwy Prys Owen.

## Cofion a Llongyfarchion

Anfonwn ein cofion at Delyth Williams (Llansannan) yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iawn i ti, Delyth, ac i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Parhawn i gofio amdanoch i gyd, ynghyd â'r rhai sy'n galaru am anwyliaid. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan weddio y byddwch yn adnabod daioni Duw yn eich amgylchynu.

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Sion Roberts (Llanefydd) a Sioned fydd yn priodi ddechrau mis Awst. Gobeithiwn y cewch ddiwrnod cofiadwy, y bydd yr haul yn gwenu, ac y bydd Duw yn eich bendithio'n helaeth.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Geraint ac Ann Williams (Henllan) fydd yn dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol yn ystod mis Awst.

**GAIR I'CH ATGOFFA:** Yn ogystal ag mewn sefyllfa o farwolaeth un o'n haelodau, byddem yn gwerthfawrogi petaech yn gadael i Rhodri, Mair, neu un o'r blaenoriaid neu'r diaconiaid, wybod os bydd aelod yn yr ysbyty, mewn profedigaeth (wedi colli rhiant, brawd, chwaer neu blentyn), yn dathlu pen-blwydd arbennig (80/90/100), pen-blwydd priodas arbennig (50/60/70), wedi dyweddio, priodi, neu ddod yn riant. Diolch yn fawr.

## Cyrsiau Haf Coleg y Bala

- **CWRS I BOBL IFANC BLYNYDDOEDD 7-11** ar Orffennaf 27<sup>ain</sup> o 10.00 tan 3.00 am £15. (Bydd angen dod â phhecyn bwyd.) Diwrnod o weithgareddau y tu allan i'r Coleg ar y 3G ac wrth Lyn Tegid. Archebwch eich lle cyn Gorffennaf 24<sup>ain</sup> trwy glicio ar y ddolen [yma](#).
- **ANHREFN AWST – DIWRNOD LLAWN HWYL I BLANT BLYNYDDOEDD 3-6** ar Awst 12<sup>fed</sup> o 10.00 tan 3.00 am £5. (Bydd angen dod â phhecyn bwyd.) Bydd yr holl weithgareddau, stori, crefft a'r gemau yn digwydd y tu allan i'r Coleg gan ddefnyddio gazebos os bydd angen. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly, archebwch mor fuan â phosibl trwy glicio ar y ddolen [yma](#).

Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein, cysylltwch â [colegybala@ebcpcw.cymru](mailto:colegybala@ebcpcw.cymru) / 01678 520565 er mwyn iddyn nhw bostio copi o'r ffurflen gofrestru i chi.

## Sylwer

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 5<sup>ed</sup> (unrhyw gyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Medi 1<sup>af</sup>, os gwelwch yn dda). **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair yn ystod pythefnos cyntaf mis Awst, ac hefo Rhodri yn ystod y pythefnos olaf.**

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536.

## Cyhoeddiadau'r Fro

Yn ogystal â'r oedfaon fydd yn cael eu cynnal mewn gwahanol gapeli, bydd **oedfa o Fro Aled i'w gael ar y bob dydd Sul o hyn tan ddiwedd mis Awst**. Bydd yr oedfaon ar gael i'w gwyllo unrhyw amser o 10.30 ymlaen ar fore Sul. Rydan ni'n edrych ymlaen i gael cwmni a gwasanaeth Rhodri dros y ddau Sul nesaf, ac yna John Pritchard, Gwilym Tudur, Gwilym Jeffs a Celfyn Williams, (nid yn angenrheidiol yn y drefn a nodwyd!) yn ystod mis Awst. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno yn yr oedfaon hyn.)

Mae un eithriad i'r drefn uchod. Ar Awst 15<sup>fed</sup>, daeth gwahoddiad i ymuno gydag aelodau Capel Bethesda, Yr Wyddgrug ar ZOOM am 10.15. Defnyddiwch y ddolen <https://uso2web.zoom.us/j/89822998184?pwd=TVdneUZaYoxwN2NTY3poVWcxWk5VUT09> i ymuno â'r oedfa, neu os byddwch yn defnyddio'r ap ZOOM, dyma'r manylion fyddwch eu hangen: Rhif y cyfarfod = 898 2299 8184 ac yna'r Cod mynediad = 068303; neu deialwch 0330 088 5830 neu 044 131 460 1196 i ymuno ar y ffôn ac yna defnyddio yr un rhifau ag uchod pan fydd llais yn gofyn amdany'n nhw.

Ar wahân i'r oedfa ar Awst 15<sup>fed</sup>, byddwn yn parhau hefyd i ddarparu **copïau papur, yn ogystal â DVDs a CDs o'r oedfa i unrhyw un sy'n methu ymuno â ni ar y we**. Plis cysylltwch â Mair os hoffech dderbyn copi.

## Llacio'r Rheolau

Er bod y Llywodraeth yn gobeithio erbyn Awst 7<sup>fed</sup> (os bydd yr amodau'n caniatáu) medru llacio tipyn ar y rheolau sy'n bodoli yng Nghymru oherwydd Covid-19, awgrymw'n mai doeth (am ychydig eto a chan fod yr achosion yn parhau'n uchel) fyddai dilyn y drefn sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sy'n unol â'r asesiadau risg sydd wedi eu paratoi gan flaenoriaid a diaconiaid pob capel yn yr ofalaeth, a'n bod yn parhau i wisgo mygydau ac i ymbellhau'n gymdeithasol yn ein capeli tan o leiaf ddiwedd mis Awst.

### DYDD SUL, GORFFENNAF 18<sup>FED</sup>

- **Cyfarfod Gweddi (i gynulleidfa Henllan a Groes)** yng Nghapel Henllan am 9.30. Enwau ymlaen llaw i Alys ([alysowen11@hotmail.co.uk](mailto:alysowen11@hotmail.co.uk)), neu Rhian ([rhianfachgau@yahoo.com](mailto:rhianfachgau@yahoo.com)), os gwelwch yn dda.
- **Oedfa (i gynulleidfa Saron a Pheniel)** yng Nghapel Saron am 10.00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd angen cofrestru ymlaen llaw trwy roi eich enw i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn nos Wener (16<sup>eg</sup>), os gwelwch yn dda.
- **Cyfarfod Gweddi (i gynulleidfa Llanfair)** yn Soar am 10.30.
- **Cyfarfod Gweddi (i gynulleidfa Cefn Meiriadog)** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 2.00. Bydd angen cofrestru erbyn nos Wener, Gorffennaf 16<sup>eg</sup> trwy roi eich enw i Haf, os gwelwch yn dda. Os bydd gennych awydd aros ar ôl y gwasanaeth am sgwrs y tu allan i'r capel, dewch â phaned a chacen (a chadair!) hefo chi, os gwelwch yn dda.

### DYDD SUL, GORFFENNAF 25<sup>AIN</sup>

- **Oedfa i bob oed (Llansannan)** yng Nghapel Coffa Henry Rees am 9.30 o dan arweiniad Rhodri. Os bydd y tywydd yn caniatáu, y bwriad yw cynnal yr oedfa y tu allan i'r capel. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, byddai'n help mawr petaech yn rhoi eich enw i Mair (870632 / 07900 627536) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa gymun (i gynulleidfa Cefn Meiriadog)** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Cefn Meiriadog am 11.00. Bydd angen cofrestru erbyn y nos Wener blaenorol trwy roi eich enw i Haf, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa deuluol (Cefn Berain a Llanefydd)** yng Nghapel Cefn Berain am 10.00. Er mwyn sicrhau lle, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian ([post@bryname.co.uk](mailto:post@bryname.co.uk) / [eirianj123@gmail.com](mailto:eirianj123@gmail.com)) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.

### DYDD SUL, AWST 1<sup>AF</sup> Oedfa ar y we yn unig.

#### DYDD SUL, AWST 8<sup>FED</sup>

- **Cyfarfod Gweddi (Llansannan) yng Nghapel Coffa Henry Rees** am 10.00. Enwau i Mair (870632 / 07900 627536) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa ar ZOOM (Cefn Berain, Henllan, Llanefydd a Groes)** am 10.00 yng nghwmni'r Parch. Trefor Lewis. Cysylltwch ag Eirian (540447 / [eirianj123@gmail.com](mailto:eirianj123@gmail.com)) i gael y manylion i ymuno.

#### DYDD SUL, AWST 15<sup>FED</sup>

- **Oedfa (Llansannan) yng Nghapel Coffa Henry Rees** am 9.30 yng nghwmni'r Parch. John Robinson. Enwau i Mair (870632 / 07900 627536) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa (i gynulleidfa Saron a Pheniel) yng Nghapel Saron** am 9.30 o dan arweiniad Alun Jones. Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa (i gynulleidfa Cefn Meiriadog) yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 11.00 yng nghwmni'r Parch. John Robinson. Enwau i Haf erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa (Llanefydd a Chefn Berain)** ar y Cae Chwarae yn Llanefydd (os bydd y tywydd yn ffafriol) am 11.00 o dan arweiniad Alun Jones. Enwau i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa ar ZOOM ar y cyd ag aelodau Capel Bethesda, Yr Wyddgrug** am 10.15. Manylion ymuno ar y dudalen sydd gyferbyn.

### DYDD SUL, AWST 22<sup>AIN</sup> Oedfa ar y we yn unig.

#### DYDD SUL, AWST 29<sup>AIN</sup>

- **Oedfa (Llansannan) yng Nghapel Coffa Henry Rees** am 9.30 yng nghwmni'r Parch. Alan Spencer. Enwau i Mair (870632 / 07900 627536) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa (Cefn Meiriadog) yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 11.00 yng nghwmni'r Parch. Alan Spencer. Enwau i Haf erbyn y nos Wener blaenorol, plis.
- **Oedfa (Llanefydd a Chefn Berain)** ar y Cae Chwarae yn Llanefydd (os bydd y tywydd yn ffafriol) am 11.00 o dan arweiniad Dewi Williams. Enwau i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, os gwelwch yn dda.